**Adroddiad ar Safonau'r Gymraeg**
**25 Ionawr 2017 – 31 Mawrth 2017**

## 1. Cyflwyniad

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio i ColegauCymru ar 25 Gorffennaf 2016.

Roedd yr hysbysiad cydymffurfio hwn yn amlinellu dyletswydd ColegauCymru i gyflawni Safonau statudol y Gymraeg, sef Safonau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, gyda'r nod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg, sef rhestr o'r hyn y mae'n rhaid i sefydliadau ei wneud a'i gyflawni yn y Gymraeg, yn sicrhau bod y rheini yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau drwy'r Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Mae'r Safonau hyn yn rhoi rhyddid ieithyddol i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Fel rhan o'r broses gydymffurfio, mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ColegauCymru gyflwyno adroddiad blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol (Ebrill – Mawrth), a hwnnw'n rhoi sylw i sut y mae'r sefydliad yn glynu wrth y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, y Safonau Llunio Polisi a'r Safonau Gweithredu. Mae darpariaeth o fewn y Safonau hefyd sy'n ymwneud â chyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Adroddiad Blynyddol. Mae'r Adroddiad hwn yn dangos y cynnydd y mae ColegauCymru wedi'i wneud tuag at gydymffurfio â'r Safonau rhwng 25 Ionawr 2017 a 31 Mawrth 2017.

Mae ColegauCymru yn credu ei fod yn ymateb i'r Safonau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac mae eu gallu yn y Gymraeg wedi cael ei asesu'n ffurfiol fel rhan o'u swyddi yn ColegauCymru. Fel rhan o friffiau wythnosol y tîm cyfathrebu, mae diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi am sut i wella arferion gweithio yn unol â hynny, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Mae ColegauCymru wedi ymrwymo i annog yr holl dîm i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg waeth beth yw lefel eu gallu, gan greu amgylchedd gweithio dwyieithog lle bydd defnyddio'r Gymraeg yn cael ei groesawu a'i annog. Rydym hefyd mynd ati i roi cefnogaeth, heb farnu, er mwyn helpu dysgwyr a siaradwyr llai hyderus i ddefnyddio'r iaith.

## 2. Y cefndir

Cyfres o ofynion sy'n rhwymo'n gyfreithiol yw'r Safonau, a'r rheini'n ceisio gwella'r gwasanaethau dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl eu cael gan nifer o gyrff cyhoeddus a statudol, gan gynnwys ColegauCymru. Mae gan ColegauCymru gyfrifoldeb i roi gwasanaethau dwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae gofyn i ColegauCymru gydymffurfio â'r safonau hyn:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Nod y Safonau yw:

- Egluro i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- Ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.
- Gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella'u hansawdd.

Cyflawnwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â ColegauCymru rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, a chyhoeddwyd adroddiad safonau yn amlinellu casgliadau'r ymchwiliad at sylw Gweinidogion Cymru ym mis Mai 2015.

Ar ôl cymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 18 Rhagfyr 2015, cafodd ColegauCymru hysbysiad gan Gomisiynydd y Gymraeg y byddai sesiwn friffio'n cael ei chynnal ynghylch y ddeddfwriaeth. Cynhaliwyd y sesiwn friffio hon ym mis Chwefror 2016, gan roi arweiniad manwl ar y disgwyliadau a'r trefniadau cyn rhoi hysbysiadau cydymffurfio o dan Ran 4, Pennod 6 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cafodd ColegauCymru ei Hysbysiad Cydymffurfio drafft mewn perthynas â'r Safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2016, a dyna oedd dechrau'r cyfnod ymgynghori a ddaeth i ben ar 26 Mai 2016. Roedd dwy ran i'r ymgynghoriad: yn y rhan gyntaf, roedd y Comisiynydd am gael rhagor o wybodaeth a thystiolaeth am Safonau penodol, ac yn yr ail ran, roedd cyfle i'r sefydliad fynegi unrhyw bryderon os oeddem o'r farn bod un neu ragor o'r Safonau a oedd wedi'u cynnwys yn afresymol neu'n anghymesur.

Roedd ein hymateb yn un cadarnhaol. Ar ôl trafodaethau rheolaidd gyda staff y Comisiynydd, cawsom yr Hysbysiad Cydymffurfio terfynol ar gyfer y Safonau ar 25 Gorffennaf 2016. Roedd mân newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn y trafodaethau ynghylch yr Hysbysiad Cydymffurfio drafft.

## 3. Cyfrifoldeb dros y Gymraeg

Er mwyn helpu ColegauCymru i roi'r Safonau ar waith, penderfynwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus yn arwain y gwaith hwn drwy'r sefydliad. Gan weithio gyda'r holl dîm, mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth wrth sicrhau cynnydd tuag at gyflawni'r Safonau.

Yn ystod y chwe mis cyn y Dyddiad Gosod ar gyfer y rhan fwyaf o'r Safonau, sef 25 Ionawr 2016, gweithiodd yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus gyda'r tîm ar draws y sefydliad i greu gweithdrefnau a fyddai'n helpu staff i ddeall eu rôl wrth alluogi ColegauCymru i gyflawni'r Safonau.

Roedd gofyn i’r tîm fod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant a chafodd canllawiau bwrdd gwaith eu creu i helpu'r staff i gydymffurfio. Roedd prif elfennau’r canllawiau hyn yn rhoi sylw i oblygiadau ymarferol gweithio i gyflawni’r Safonau o ddydd i ddydd, fel sut i ateb y ffôn; sut i drefnu cyfarfodydd gan ystyried dewis iaith y rheini a fyddai’n cymryd rhan; a chofnodi dewis iaith ein haelodau a’n cysylltiadau.

Fel gyda phob mater sy’n ymwneud â chydymffurfio, mae ColegauCymru wedi ymrwymo i sicrhau cyfrifoldeb ar draws yr holl sefydliad. Y Cyfarwyddwr Busnes a Gweinyddu fydd y prif berson cyswllt a’r person a fydd yn gyfrifol am reoli datblygiadau o ddydd i ddydd.

## 4. Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Mae Cynllun Iaith Gymraeg ColegauCymru yn dal i fod yn ddogfen fyw sy’n amlinellu ymrwymiad y sefydliad i’r Gymraeg, ac mae copi ar gael ar ein gwefan ac yn fewnol.

Mae gan ColegauCymru a Chomisiynydd y Gymraeg berthynas waith ragorol, ac maent yn cefnogi’i gilydd mewn digwyddiadau, cyfleoedd i gyflwyno siaradwyr gwadd, a rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo’r Gymraeg ar y cyd mewn addysg ôl-16.

Nod cydweithio a phartneriaethau o’r fath yw tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn addysg academaidd a galwedigaethol, gan gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog sy’n cael ei chynnig fel rhan o’r cwricwlwm. Mae’n fwriad rhoi cyhoeddusrwydd hefyd i rôl hollbwysig colegau addysg bellach wrth helpu cymunedau dwyieithog i ffynnu a sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn economaidd.

## 5. Datblygu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg – yn unol â Safonau 123 a 145

Cynhaliodd ColegauCymru archwiliad o sgiliau iaith ym mis Rhagfyr 2016, yn unol â Safon 123. O blith y deg aelod o staff, mae chwech yn gallu siarad Cymraeg i’r safon sy’n ofynnol ar gyfer eu swyddi, ac mae'r pedwar arall yn gallu croesawu a chyfarch pobl.

Cynigir hyfforddiant yn y Gymraeg i’r holl staff er mwyn helpu gyda gweithgareddau busnes a datblygiad unigol y staff.

Mae un aelod wedi bod ar gwrs gloywi dwys pum niwrnod ac mae aelod arall o staff wedi bod ar y cwrs dwys lefel canolradd pum niwrnod.

## 6. Cwynion – yn unol â Safon 141

Cyflenwi Gwasanaethau – mae 64 o Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn berthnasol i ColegauCymru. Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law am gydymffurfio â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Llunio Polisi – mae 9 o Safonau Llunio Polisi yn berthnasol i ColegauCymru. Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law am gydymffurfio â’r Safonau Llunio Polisi.

Gweithredu – mae 42 o Safonau Gweithredu yn berthnasol i ColegauCymru. Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law am gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

## 7. Recriwtio – yn unol â Safon 148

Dyma nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl categori –

(i) sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol: 0 swydd
(ii) byddai angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl penodi i'r swydd: 1 swydd
(iii) sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol: 0 swydd
(iv) dim angen sgiliau yn y Gymraeg: 0 swydd

Hysbysebwyd pob swydd gan nodi bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Os yw hynny'n bosibl, rydym yn esbonio lefel y sgiliau sy'n ofynnol i gyd-fynd â chyfrifoldebau'r swydd.

## Cysylltu

Iestyn Davies
Prif Weithredwr
ColegauCymru

Julie Osman
Cyfarwyddwr Busnes a Gweinyddu ac Ysgrifennydd y Cwmni
ColegauCymru

Claire Roberts
Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus
ColegauCymru
U7, Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais
Caerdydd CF15 7AL

Ffôn: 02920 522 500 (croesewir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg).
e-bost: helo@colegaucymru.ac.uk

Mae ColegauCymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth a gawn yn Gymraeg yn y Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Elusen Gofrestredig Rhif 1060 182, Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103.